**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

7 Chwefror 2025

Annwyl David,

Er mwyn llywio trafodaethau pellach  Pwyllgor Senedd y Dyfodol, roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol nodi yn ysgrifenedig ffrwyth myfyrdod presennol Llywodraeth Cymru ar drefnu materion busnes a drafodwyd hyd yn hyn. Mae hyn i'w weld yn Atodiad A.

Yn Atodiad B ceir canfyddiadau ymchwil a wnaed gan swyddogion y Llywodraeth ar gwestiynau llafar a allai fod o ddiddordeb i aelodau'r Pwyllgor o ran llywio trafodaethau a phenderfyniadau pellach ar y materion hyn.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Trefnu busnes yn y Seithfed Senedd

### Hyblygrwydd busnes y Cyfarfod Llawn

1. Gellid cynyddu effeithlonrwydd busnes pe bai mwy o hyblygrwydd i gynyddu cyfran yr amser y gellir ei neilltuo i fusnes y Llywodraeth mewn unrhyw wythnos benodol i reoli yn well cyfnodau anochel pan fo busnes y Cyfarfod Llawn ar ei anterth, er enghraifft, trafodion Cyfnod 3 ar Filiau.

2. Mae'r rhaniad busnes presennol ar ddydd Mawrth a dydd Mercher yn deillio o benderfyniadau'r Pwyllgor Busnes ar yr amserlen. Mae Rheol Sefydlog 11.17 yn datgan bod ‘rhaid i gyfanswm yr amser a ddyrennir rhwng busnes y llywodraeth a busnes y Senedd yn y cyfarfodydd llawn mewn blwyddyn Senedd, cyn belled ag y bo’n rhesymol ymarferol, fod yn y cyfrannedd 3:2.’

3. Er bod ymchwil a nodwyd mewn papur pwyllgor cynharach yn awgrymu mai 2:1 yw cymhareb busnes y Llywodraeth i fusnes y Senedd yn nhymor y Senedd hon, mewn gwirionedd nid oes gan y Llywodraeth ddisgresiwn dros nifer o elfennau sy'n cael eu categoreiddio fel busnes y Llywodraeth: er enghraifft, mae Cwestiynau'r Prif Weinidog a Chwestiynau Llafar y Gweinidogion yn cael eu rheoli i bob pwrpas gan Reolau Sefydlog y Senedd. O ddiystyru sesiynau cwestiynau, mae'r gymhareb yn llawer mwy cyfartal, gyda 38% o amser y Cyfarfod Llawn yn cael ei neilltuo i fusnes arall y Llywodraeth o'i gymharu â 34% ar gyfer busnes nad yw'n fusnes y llywodraeth.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru:**
Byddai effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd craffu yn cael ei gynyddu drwy ddarparu mwy o hyblygrwydd i gynnig defnyddio cyfran uwch o amser y Cyfarfod Llawn mewn wythnos benodol i hwyluso busnes.

Rydym o blaid hwyluso mwy o graffu ar is-ddeddfwriaeth, yn enwedig eitemau o is-ddeddfwriaeth arwyddocaol.

Rydym o blaid rhoi mwy o gyfle i siaradwyr (heblaw'r Gweinidog a llefarwyr y gwrthbleidiau) ofyn cwestiynau mewn ymateb i ddatganiad llafar.

### Nifer y diwrnodau pan gynhelir Cyfarfod Llawn

4. Gellid cynyddu effeithlonrwydd busnes pe bai mwy o gyfle a hyblygrwydd i fusnes y Cyfarfod Llawn ddigwydd.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru:**
Yn dilyn y pwynt uchod ynghylch mwy o hyblygrwydd dros y gyfran o fusnes y Llywodraeth yn y Cyfarfod Llawn, rydym yn cefnogi'r defnydd hyblyg o drydydd diwrnod ar gyfer Cyfarfod Llawn, ar y cyd â galluogi pwyllgorau i gyfarfod yr un pryd â'r Cyfarfod Llawn i reoli adegau prysurach na'i gilydd ym musnes y Llywodraeth.

**Cwestiynau Llafar**

5. Ar hyn o bryd mae Rheol Sefydlog 12.59 yn ei gwneud yn ofynnol i Gwestiynau i'r Prif Weinidog gael eu cyflwyno ‘o leiaf dri diwrnod gwaith cyn eu bod i gael eu hateb', ond i Weinidogion Cymru rhaid eu cyflwyno ‘o leiaf bum diwrnod gwaith cyn eu bod i gael eu hateb’. Y rhesymeg dros fyrhau'r dyddiad cau ar gyfer Cwestiynau'r Prif Weinidog (FMQs) oedd caniatáu i gwestiynau mwy cydamserol gael eu cyflwyno. Er hynny, mae'n destun dadl ai dyna'r effaith a gafwyd.

6. Er nad yw hyn yn y Rheolau Sefydlog, detholir 12 cwestiwn ar gyfer pob sesiwn FMQ ac ar gyfer pob sesiwn cwestiynau llafar y Gweinidogion. Mae 12 cwestiwn yn cael eu dethol ac fe baratoir ar eu cyfer, ond yn ymarferol anaml y caiff mwy nag wyth eu hateb yn y Cyfarfod Llawn.

7. Mae'n werth nodi, yn Senedd yr Alban, y caiff unrhyw Aelod gyflwyno cwestiwn ar gyfer FMQs erbyn y terfyn amser, ac ar ôl hynny mae'r Llywydd yn dethol hyd at wyth cwestiwn i'w hateb. Yn anecdotaidd, mae hyn yn galluogi ystod o bynciau i gael eu codi bob wythnos, gan gynnwys rhai o natur amserol.

8. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi llunio data ar gwestiynau llafar a gyflwynwyd rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2024 (Atodiad B). Yn ystod y cyfnod hwn roedd 119 o sesiynau cwestiynau llafar gyda 1,328 o gwestiynau yn cael eu cyflwyno. O'r 119 sesiwn hynny, dim ond 10 sesiwn oedd yn sesiynau pan ofynnodd Aelodau 9+ o gwestiynau. O ganlyniad, cafodd 421 o gwestiynau naill ai eu tynnu'n ôl, neu ni chawsant eu gofyn neu eu cyrraedd, sy'n cyfateb i 31.7%. Er bod y cwestiynau hyn wedi'u troi'n Gwestiynau Ysgrifenedig, mae'r gwaith hwn sy'n ymwneud â pharatoi ar gyfer cwestiynau llafar yn dangos aneffeithlonrwydd sylweddol yn y dull presennol. O'u hystyried ochr yn ochr ag awydd i ganiatáu i Aelodau ofyn mwy o gwestiynau atodol, yn ogystal â chaniatáu i fwy o Aelodau gymryd rhan o bosibl, ymddengys y byddai dethol nifer llawer is o gwestiynau yn synhwyrol.

9. Ar hyn o bryd mae Rheol Sefydlog 12.56(ii) yn ei gwneud yn ofynnol ‘i bob un o Weinidogion Cymru a’r Cwnsler Cyffredinol ateb cwestiynau llafar ynglŷn â’u cyfrifoldebau, o leiaf unwaith, am hyd at 45 munud, ym mhob pedair wythnos y bydd y Senedd yn cynnal cyfarfod llawn.’ Yn dilyn etholiad Senedd Cymru 2026 bydd cynnydd o bump yn uchafswm nifer y Gweinidogion Cymru y caiff y Prif Weinidog eu penodi. Gallai newidiadau yn nifer Gweinidogion Cymru gael effaith sylweddol ar gyfran yr amser y mae'r Cyfarfod Llawn yn ei roi i gwestiynau llafar. Mae'n werth nodi bod rheolau Senedd yr Alban yn llai rhagnodol a'u bod yn hytrach yn gwneud y canlynol yn ofynnol: “The Parliament shall, on a motion of the Parliamentary Bureau, decide which portfolios are to be included in each Portfolio Question Time.”

**Safbwynt Llywodraeth Cymru:**
Rydym o blaid lleihau nifer y cwestiynau sy'n cael eu dethol o'r nifer presennol o 12. Gan mai anaml y caiff wyth cwestiwn eu gofyn a'u hateb mewn unrhyw sesiwn, ac i roi amser i fwy o Aelodau ofyn cwestiynau atodol a/neu i Aelodau ofyn cwestiwn atodol pellach, gallai dewis chwe chwestiwn ym mhob sesiwn ganiatáu ar gyfer craffu mwy effeithlon ac effeithiol.

Rydym o blaid ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth, neu'r Pwyllgor Busnes, nodi amserlen reolaidd ar gyfer sesiynau cwestiynau llafar Gweinidogion yn ôl system gylchdroi i gyfrif am yr amrywiad mwy yn y nifer posibl o Ysgrifenyddion Cabinet.

Er mwyn bod yn fwy ymatebol i ddigwyddiadau, rydym o blaid rhoi mwy o gyfle i ofyn cwestiynau amserol ar ragor o ddiwrnodau. Dylai fod gan gwestiynau o'r fath derfynau amser priodol ar gyfer eu cyflwyno, gan ddarparu mwy o rybudd o'r adeg y'u derbynnir.

**Cwestiynau Ysgrifenedig**

10. Mae Rheol Sefydlog 14.4 yn datgan ‘Derbynnir cwestiynau yn ôl disgresiwn y Llywydd, y mae’n rhaid iddo roi sylw i unrhyw ganllawiau ysgrifenedig a gyhoeddwyd yn unol â Rheol Sefydlog 6.17.’ Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys y canlynol ar hyn o bryd:
    - ni chaniateir i gwestiynau a atebwyd yn flaenorol gan yr un Gweinidog, neu sy'n adnewyddu, neu'n ailadrodd yn sylwedd, un y gwrthodwyd ateb iddo, gael ei ofyn eto am gyfnod o dri mis;
    - ni chaniateir derbyn cwestiynau sy'n ceisio datganiad o farn am gwestiwn yn y gyfraith;
    - ni dderbynir cwestiynau sy'n ceisio gwybodaeth y gall yr Aelod ddod o hyd iddi yn hawdd o'i wirfodd neu drwy ffynhonnell arall.

11. Mae'n bosibl y gallai'r cynnydd yn nifer yr Aelodau a symud at etholaethau aml-Aelod gynyddu'r tebygolrwydd o ddyblygu neu ailadrodd (o fewn amserlen fer) ac o ganlyniad bydd cymhwyso'r egwyddorion a nodir ar hyn o bryd yn y canllawiau yn bwysicach er mwyn sicrhau effeithlonrwydd craffu.

12. Yn nodedig, mae Rheolau Senedd yr Alban yn nodi bod cwestiwn yn dderbyniol oni bai, ymhlith pethau eraill, “the information sought has been provided in response to a similar question in the 6 months before the member seeks to lodge the question”.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru:**
Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd craffu, ac osgoi dyblygu ac ailadrodd cwestiynau, rydym o blaid diwygio Rheol Sefydlog 14.4 i gynnwys elfennau penodol o'r canllawiau presennol ar dderbynioldeb cwestiynau ysgrifenedig, ac ystyried ymestyn y cyfnod yn y canllawiau presennol o 3 mis i 6 mis.

**Pwyllgorau'r Senedd**

*Nifer y Pwyllgorau*

13. Gellid darparu ar gyfer y cynnydd posibl yn nifer y pwyllgorau, sef cynnydd o un pwyllgor o dan y senario newid lleiaf a chynnydd o dri phwyllgor o dan y senario newid mwyaf, o fewn strwythur pwyllgorau tebyg i'r strwythur sydd ar waith ar hyn o bryd.

14. Pe bai strwythur pwyllgorau'r Seithfed Senedd yn debyg i strwythur presennol pwyllgorau parhaol, gallai:
    - ddarparu ar gyfer pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth o saith Aelod;
    - cyflawni egwyddor bod yr Aelodau'n eistedd ar ddim mwy nag un pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth; a
    - darparu ar gyfer sefydlu hyd at ddau bwyllgor ‘Gorchwyl a Gorffen’.

15. Gellid defnyddio pwyllgorau ‘Gorchwyl a Gorffen’ ad hoc i ystyried deddfwriaeth nad yw'n cyd-fynd yn naturiol â'r strwythur pwyllgorau ehangach (e.e. bil pwyllgor) neu Fil a gyflwynir y mae ei bwyllgor pwnc ‘arferol’ eisoes ar ben uchaf ei gapasiti, a swyddogaethau eraill yn ôl yr angen. Byddai dull o'r fath yn debyg i'r pwyllgorau

presennol: y Pwyllgor Biliau Diwygio, Pwyllgor Senedd y Dyfodol, a Phwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19.

*Aelodau'n eistedd ar un pwyllgor*

16. Gellid cynyddu effeithlonrwydd busnes (e.e. rheoli adegau prysur ym maes craffu, megis ystyried deddfwriaeth neu'r gyllideb) pe bai pwyllgorau'n gallu cyfarfod am fwy o amser neu'n amlach. Os oes egwyddor bod Aelod yn eistedd, cyn belled ag y bo'n ymarferol, ar un pwyllgor, yna gallai pwyllgorau'r Senedd gael mwy o ymreolaeth a hyblygrwydd, gan y byddai llai o wrthdaro o ran aelodaeth. Byddai hefyd yn galluogi Aelodau i ddatblygu eu harbenigedd mewn pwnc, a allai arwain at graffu mwy effeithiol ac effeithlon.

17. Yn 2004, argymhellodd Comisiwn Richard y dylai Aelodau eistedd ar un pwyllgor pwnc mawr yn unig er mwyn datblygu arbenigedd pwnc a hwyluso craffu gwell. Dywedodd yr Arglwydd Lisvane, mewn tystiolaeth i'r Panel Annibynnol ar Ddiwygio'r Cynulliad: "…being a member of more than one committee dilutes the effort and knowledge, and reduces effectiveness".

18. Nododd yr Arglwydd Norton a Greg Power (arbenigwr a oedd wedi gweithio gyda seneddau a sefydliadau gwleidyddol mewn mwy na 30 o wledydd) ddwy egwyddor mewn tystiolaeth i'r Panel Annibynnol ar Ddiwygio'r Cynulliad: "Yn gyffredinol, dylai'r Aelodau wasanaethu ar ddim mwy na dau bwyllgor; [a] Dylai cadeiryddion pwyllgorau wasanaethu ar eu pwyllgor eu hunain yn unig." Dywedodd y Panel Annibynnol ei fod "yn cymeradwyo'r sefyllfa hon ac yn awgrymu y dylai'r Cynulliad a'r pleidiau gwleidyddol eu mabwysiadu yn egwyddorion i'w hadlewyrchu yn nyluniad unrhyw system bwyllgorau yn y dyfodol."

19. Yn 2021, nododd yr Athro Diana Stirbu yn yr adroddiad 'Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd': "Mae aelodaethau lluosog mewn pwyllgorau yn codi materion o ran amserlennu cyfarfodydd pwyllgor yn effeithiol, yn ogystal â gallu Aelodau pwyllgor i ymgysylltu'n llawn â gwaith pwyllgor, yn enwedig os ydynt yn Aelodau o ddau bwyllgor polisi a deddfwriaeth sydd â chylch gwaith eithaf eang."

20. Nododd y Pwyllgor Diben Arbennig y dylai Aelodau yn ddelfrydol fod yn arbenigwyr mewn maes craffu penodol, gan ddefnyddio cyfarfodydd pwyllgor i ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif, nid dim ond ar sail briffiau cefndirol gan y staff, ond ar sail eu hymchwil a'u hymgysylltiad eu hunain. Nododd y Pwyllgor Diben Arbennig mai anaml iawn y bydd Aelodau mewn seneddau eraill yn eistedd ar fwy nag un Pwyllgor, ond bod hyn yn arfer cyffredin yn y Senedd, sy'n atal Aelodau rhag cael cyfle i arbenigo.

*Cynnal Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgor yr un pryd*

21. Mae mabwysiadu'r egwyddor bod Aelod yn eistedd, cyn belled ag y bo'n ymarferol, ar un pwyllgor hefyd yn golygu y gallai pwyllgorau gael yr opsiwn i gyfarfod yn ystod sesiynau Cyfarfod Llawn. Nid oes angen i hyn o reidrwydd fod yn rhan o amserlen benodedig o gyfarfodydd pwyllgorau, ond yn hytrach y gallai pwyllgorau gael disgresiwn ynghylch pryd, ble a sut y maent yn cyfarfod, gan gymryd i ystyriaeth rhaglen waith y pwyllgor, argaeledd aelodau'r pwyllgor, ac osgoi eitemau allweddol o fusnes y Cyfarfod Llawn.

*Pwyllgorau polisi a deddfwriaeth cyfun neu ar wahân*

22. Efallai na fydd sefydlu pwyllgorau deddfwriaeth ar wahân yn ddefnydd mwyaf effeithlon o gapasiti'r pwyllgor. Er bod y rhaglen ddeddfwriaethol yn ceisio llyfnhau llif deddfwriaeth y

Llywodraeth, gall fod adegau prysurach na'i gilydd o ran gwaith pwyllgorau o graffu ar ddeddfwriaeth.

23. Defnyddiodd y sylfaen dystiolaeth a oedd yn cefnogi hynt Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) nifer o adroddiadau ac argymhellion a nododd y byddai mwy o gapasiti yn caniatáu i Aelodau arbenigo, gan arwain at graffu gwell a mwy effeithiol ar bolisi a deddfwriaeth yn y maes hwnnw. O ganlyniad, mae pwyllgorau polisi a deddfwriaeth cyfun yn caniatáu i arbenigedd o'r fath gael ei ddefnyddio ac i ddeddfwriaeth gael ei gweld yng nghyd-destun y maes polisi hwnnw.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru:**
Rydym yn cefnogi'r egwyddor, gan ddefnyddio'r strwythur pwyllgorau presennol a chan ddefnyddio pwyllgorau ‘gorchwyl a gorffen’, na ddylai unrhyw Aelod eistedd ar fwy nag un pwyllgor pwnc polisi. Mae hyn yn caniatáu i Aelodau arbenigo ac yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran busnes y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau bob wythnos.

Rydym o blaid galluogi pwyllgorau i gyfarfod yr un pryd â'r Cyfarfod Llawn, gydag eithriadau amlwg sy'n ymwneud ag eitemau busnes allweddol (e.e. FMQs, trafodion deddfwriaeth, amser pleidleisio, ac eitemau busnes proffil uchel eraill).

Rydym o blaid parhau i gael pwyllgorau polisi a deddfwriaeth cyfun, gan gydnabod yr un pryd y gall fod lle i bwyllgorau deddfwriaeth fel pwyllgorau ‘gorchwyl a gorffen’ ad hoc pan na fydd yn ymarferol nac yn briodol cyfeirio Bil at bwyllgor polisi. Mae sefydlu'r Pwyllgor Biliau Diwygio yn enghraifft dda o sut y gall y dull hwn weithio tuag at graffu effeithiol ac effeithlon.